




Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2026

**Ymgynghoriad ar y rheoliadau diwygio
drafft**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 30^{ain} Medi 2025

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 25^{ain} Tachwedd 2025





Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2026

Ymgynghoriad ar y rheoliadau diwygio drafft

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- I:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn deiliaid swyddi barnwrol sydd â hawl i fod yn aelod o'r cynllun pensiwn barnwrol, yn enwedig unrhyw aelod o'r Cynllun Pensiwn Barnwrol i Farnwyr y Telir Ffi Iddynt (FPJPS) a Chynllun Pensiwn Barnwrol 2022 (JPS22) neu Gynllun Pensiwn Barnwrol 2015 (JPS15).
- Hyd:** O 30^{ain} Medi 2025 i 25^{ain} Tachwedd 2025.
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** E-bost: judicialpensionsconsultation@justice.gov.uk
- Sut i ymateb:** Cyflwynwch eich ymateb erbyn 25^{ain} Tachwedd 2025 drwy wefan Citizen Space.
Fel arall, gallwch gyflwyno eich ymateb drwy e-bost at judicialpensionsconsultation@justice.gov.uk
- Papur ymateb:** Disgwylir i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei gyhoeddi nes ymlaen eleni.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Cyflwyniad	4
Pwerau i gasglu cyfraniadau pensiwn yn ôl-weithredol	5
<i>Ymestyn y dyddiad cau ar gyfer casglu cyfraniadau cyn-gychwyn</i>	<i>7</i>
<i>Ymestyn pwerau adfer cyfredol</i>	<i>8</i>
Cwestiynau	9
Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Gymraeg	10
Asesiad o'r effaith	10
Cydraddoldeb	10
Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg	11
Dyletswydd Egwyddorion Amgylcheddol	11
Cwestiwn	12
Holiadur	13
Amdanoch chi	14
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	15
Cwynion neu sylwadau	15
Copiâu ychwanegol	15
Cyhoeddi ymateb	15
Grwpiau cynrychioliadol	15
Cyfrinachedd	15
Atodiad A	17
Cefndir	17
Atodiad B	21
Drafft – Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2026	21
Egwyddorion ymgynghori	22

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar fersiwn ddrafft Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2026 (Diwygiadau 2026). Prif bwrpas Diwygiadau 2026 yw hwyluso gweithrediad effeithlon y Cynllun Pensiwn Barnwrol.

Mae Diwygiadau 2026 yn diwygio'r offerynnau statudol canlynol:

- Rheoliadau Pensiynau Barnwrol 2015 ("rheoliadau JPS15"), a sefydlodd Gynllun Pensiwn Barnwrol 2015 ("JPS15");
 - Rheoliadau Pensiynau Barnwrol 2022 ("rheoliadau JPS22") a sefydlodd Gynllun Pensiwn Barnwrol 2012 ("JPS22"); a
 - Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Barnwyr y Telir Ffi Iddynt) 2017 ("Rheoliadau FPJPS"), a sefydlodd Gynllun Pensiwn i Farnwyr y Telir Ffi Iddynt 2017 ("FPJPD").
2. Cynigir y diwygiadau i gynyddu'r ystod o bwerau sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gasglu cyfraniadau pensiwn wrth aelodau cynlluniau pensiwn barnwrol. Daeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o rai achosion lle na chawsant eu didynnu, neu y didynnwyd swm anghywir o gyfraniadau aelodau o gyflogau neu ffioedd ar yr adeg y talwyd y rhain i aelodau, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Mewn rhai achosion, cafodd y cyfraniadau a fethwyd eu hadennill drwy ddulliau eraill, fel arfer drwy gyfansymiau a wnaed yn rhagweithiol gan aelodau. Mewn achosion eraill, mae'r cyfraniadau'n parhau i fod heb eu talu felly rhaid eu casglu ("cyfraniadau ôl-ddyddio"). Bydd y diwygiadau arfaethedig yn cynyddu'r pwerau i gasglu (neu i gael eu casglu) y taliadau hyn, yn ôl-weithredol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd faint yn union o gofnodion barnwrol sy'n cael eu heffeithio gan y mater hwn, ond mae'r gwaith a wnaed hyd yma yn dangos bod y mater yn gymharol gyfyngedig o ran cwmphas ac yn debygol o effeithio ar lai na 500 o gofnodion ar draws JPS15, JPS22 a FPJPS.
 3. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn cynyddu'r pwerau i adennill cyfraniadau a fethwyd ar sail ôl-ddyddio o dan JPS15 a JPS22. Mae FPJPS eisoes yn cynnwys rhai pwerau i gasglu cyfraniadau ôl-ddyddio ar gyfer y cyfnodau cyn iddo ddechrau, ond maent yn amodol ar rai cyfyngiadau, ac felly mae'r Weinyddiaeth yn argymhell eu hehangu. Nid yw cyfnod ôl-gychwyn FPJPS o fewn cwmphas yr ymgynghoriad hwn, oherwydd maint y pwerau yn y Ddeddf Pensiynau Barnwrol ac Ymddeoliad 1993, y cafodd ei sefydlu oddi tano.
 4. Oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r cynlluniau wedi'u strwythuro, mae angen dulliau gwahanol rhwng y cynlluniau i gyflawni'r nod hwn.

5. Mae'r gwelliannau'n cwmpasu 3 maes:

a. Ehangu'r dulliau ar gyfer casglu cyfraniadau ôl-ddyddio.

- Ar gyfer FPJPS, byddwn yn ehangu pwerau adfer cyfredol i ganiatáu i gyfraniadau gael eu hadfer ar gyfer y cyfnod cyn-gychwyn cychwynnol a chyfnodau cyn-gychwyn o randaliadau pensiwn y dyfodol ac yn ymestyn y dyddiad cau ar gyfer talu cyfraniadau cyn-gychwyn drwy gyfandaliad.
- Ar gyfer JPS15 a JPS22, byddwn yn gosod pwerau i ganiatáu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i adennill cyfraniadau aelodau lle nad ydynt wedi'u didynnu o enillion pensiynadwy aelod am gyfnod cyflog penodol. Ar hyn o bryd, dim ond drwy ddidynnu o enillion o fewn cyfnod penodol y mae'r rheoliadau'n caniatáu adennill, ac nid ydynt yn darparu mecanweithiau amgen ar gyfer casglu cyfraniadau mewn achosion o'r fath.

b. Cynyddu'r opsiynau ar gyfer casglu cyfraniadau yn y dyfodol.

- Mae hyn yn berthnasol i JPS22 yn unig, oherwydd fod pob cynllun arall bellach ar gau ar gyfer croniadau pensiwn (er bod aelodau'n cadw eu buddion yn y cynlluniau hynny). Er y bydd didynnu o enillion pensiynadwy aelod am gyfnod tâl yn parhau i fod y prif ffordd o gasglu cyfraniadau pensiwn, bydd y pwerau rydym yn eu gosod ar JPS22 yn rhoi'r gallu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddefnyddio dulliau eraill mewn amgylchiadau lle nad yw hyn wedi digwydd. Bydd y pwerau newydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifon pensiwn aelodau yn parhau i fod yn gywir.

c. Rheoleiddio cyfraniadau a gymerwyd heb bwerau.

- Drwy wneud y gwelliannau hyn, lle bo'n bosib, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn rheoleiddio camau adfer mewn perthynas â chyfraniadau ôl-ddyddio sydd wedi'u cymryd hyd yn hyn. Nid yw hyn yn berthnasol i gyfraniadau ôl-gychwyn y FPJPS, yr ydym yn eu hystyried ar wahân.

6. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Ynglŷn â'r ddogfen hon

7. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon fe welwch fersiwn gyhoeddedig o'r rheoliadau drafft. Mae Datganiad Cydraddoldeb wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cyflwyniad

8. Mae'r papur hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad – i ddiwygio rheoliadau FPJPS, rheoliadau JPS15 a rheoliadau JPS22. Lle mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio'r ddeddfwriaeth honno, nodwch fod y ddeddfwriaeth ei hun yn cael blaenoriaeth os oes gwahaniaeth (er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn mor gywir â phosibl).
9. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at ddeiliaid swyddi barnwrol cyflogedig a'r rhai sy'n derbyn ffi sydd â hawl i fod yn aelod o'r cynllun pensiwn barnwrol, yn enwedig unrhyw aelod o FPJPS, JPS15 a/neu JPS22.
10. Mae fersiwn Gymraeg o'r papur ymgynghori wedi cael ei chyhoeddi hefyd.
11. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg am wyth wythnos o'r dyddiad cyhoeddi, gan ddod i ben ar 25^{ain} Tachwedd 2025. Mae manylion sut i ymateb i'r ymgynghoriad wedi'u nodi ar dudalen 15.
12. Mae copi o'r rheoliadau drafft wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn (Atodiad B).

Pwerau i gasglu cyfraniadau pensiwn yn ôl-weithredol

Cefndir

13. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o rai enghreifftiau lle nad yw cyfraniadau aelodau wedi eu didynnu, neu y didynnwyd y swm anghywir o gyfraniadau aelodau, o'u cyflog neu ffioedd ar yr adeg y talwyd y rhain i aelodau.
14. Mae'r mater hwn wedi codi mewn dau brif amgylchiad: yn gyntaf, lle na chrëwyd cofnod priodol o bensiwn deiliad swydd farnwrol ar ôl eu cofrestru ar y cynllun ("Cofrestriad a Fethwyd"), ac yn ail, lle roedd cap enillion a oedd yn bodoli yn FPJPS wedi'i gymhwyso'n anghywir i rai barnwyr yn JPS22 ("Camddefnyddio'r Cap Enillion").

Cofrestriad a fethwyd

15. Mae Cofrestriad a Fethwyd yn effeithio ar farnwyr ar draws JPS15, JPS22 a FPJPS. Mae Cofrestriad a Fethwyd yn disgrifio sefyllfa lle mae problemau gweinyddol wedi arwain at beidio â sefydlu cyfrif pensiwn aelod adeg ei benodiad i swydd farnwrol gymwys. Yna arweiniodd diffyg cyfrif pensiwn at beidio â didynnu cyfraniadau'n briodol o gyflog neu ffioedd.
16. Er y gellir sefydlu cyfrifon pensiwn yn hwyrach, ar hyn o bryd mae'r pwerau i gasglu cyfraniadau ôl-ddyddio ar ôl i gofrestrriad a fethwyd gael ei nodi yn brin, yn dibynnu ar y cynllun, felly mae cyfraniadau aelodau naill ai'n cael eu gadael heb eu talu neu, mewn rhai achosion, wedi'u casglu drwy gyfandaliad heb awdurdod deddfwriaethol.
17. Mae aelodau sy'n cael eu heffeithio yn atebol i dalu'r cyfraniadau hyn hyd yn oed os nad oes cyfrif pensiwn wedi'i sefydlu ac nad yw'r cyfraniadau wedi'u didynnu'n briodol, oherwydd, oni bai bod eithriad yn berthnasol neu os yw'r aelod yn dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun, daw'r aelodau'n atebol i dalu cyfraniadau i JPS15 a JPS22 o'r diwrnod cyntaf y maent yn dechrau gwasanaethu mewn swydd farnwrol gymwys, ac yn FPJPS o'r diwrnod cymwys cyntaf y maent yn cael ffi.

Camddefnyddio'r Cap Enillion

18. Roedd Cap Enillion (h.y. lefel uwchlaw'r hyn y mae enillion yn peidio â bod yn bensiynadwy) yn bodoli yn FPJPS ond nid yw'n bodoli yn JPS15 neu JPS22. Oherwydd gwall gweinyddol, defnyddiwyd y cap enillion yn anghywir i nifer fach o farnwyr y telir ffi iddynt yn JPS22, sydd wedi arwain at y barnwyr hynny heb dalu

cyfraniadau digonol - hynny yw, mae ganddyn nhw gyfraniadau aelodau heb eu talu am y gyfran o'u henillion a oedd yn fwy na'r cap a ddefnyddiwyd yn anghywir.

19. Gall fod achosion eraill hefyd, ar wahân, lle mae cyfraniadau aelod wedi'u tan-gasglu oherwydd gwallau gweinyddol, gan arwain at gyfraniadau sydd heb eu talu gan aelodau.

Newid dull o gasglu cyfraniadau

20. Yn ogystal â bod angen deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r materion hanesyddol hyn, maent wedi tynnu sylw at yr angen am ystod ehangach o bwerau i gasglu cyfraniadau er mwyn sicrhau, lle nad yw cyfraniadau'n cael eu casglu ar yr un pryd, fod aelodau'n gallu talu'r cyfraniadau sy'n ddyledus. Felly, mae'r pwerau hefyd yn berthnasol yn rhagolygol.

21. Y bwriad o hyd yw y bydd cyfraniadau'n cael eu didynnu'n bennaf o enillion ar yr adeg y cânt eu talu, serch hynny, bydd dulliau eraill ar gael os nad yw hynny'n bosibl.

Gwelliannau i'r JPS15 a JPS22

22. Er bod aelodau'n parhau i fod yn atebol i dalu cyfraniadau ôl-ddyddio, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd o fewn rheoliadau JPS15 neu reoliadau JPS22 sy'n caniatáu i'r cyfraniadau hynny gael eu casglu'n ôl-weithredol. Bydd y gwelliannau arfaethedig yn caniatáu i gyfraniadau ôl-ddyddio sydd heb eu talu gael eu hadennill yn y ffyrdd canlynol ac yn nhrefn blaenoriaeth:

- a. Yn gyntaf, lle bo aelod yn parhau i fod mewn swydd farnwrol, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio cytuno â'r aelod i ddidynnu cyfraniadau sydd heb eu talu o gyflog neu ffioedd yr aelod yn y dyfodol, ar y symiau a'r cyfnodau y cytunir arnynt â'r aelod.
- b. Yr ail opsiwn yw i'r aelod ad-dalu'r cyfraniadau sydd heb eu talu drwy wneud cyfandaliad (e.e. drwy siec neu drosglwyddiad banc) o fewn chwe mis i gael ei hysbysu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r swm sy'n ddyledus, neu erbyn dyddiad hwyrach os cytunir arno gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- c. Os yw cyfraniadau'n parhau heb eu talu adeg ymddeoliad neu ymddeoliad rhannol aelod, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnig adennill cyfraniadau ôl-ddyddio sydd heb eu talu o unrhyw gyfandaliad sy'n cael ei dalu adeg ymddeoliad lle mae'r aelod yn dewis un (gan gynnwys pensiwn bach cymudedig) neu o randaliadau pensiwn yn y dyfodol.

- d. I gloi, os yw'r aelod yn marw heb ymddeol ac y ceir cyfraniadau sydd heb eu talu, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnig adennill y cyfraniadau sydd heb eu talu o'r cyfandaliad Marwolaeth mewn Gwasanaeth.

Gwelliannau i'r FPJPS

23. Yn wahanol i JPS15 a JPS22, mae rhai pwerau eisoes o fewn y rhannau cyn-gychwyn cychwynnol a chyn-gychwyn o'r FPJPS i gasglu cyfraniadau ôl-ddyddio. Serch hynny, mae'r pwerau hyn yn amodol ar rai cyfyngiadau sy'n cyfyngu ar allu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gasglu cyfraniadau, a gallu aelodau i'w talu.
24. Felly, rydym yn diwygio FPJPS i ehangu pwerau cyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gasglu cyfraniadau ar gyfer y cyfnodau cyn-gychwyn cychwynnol a chyn-gychwyn, yn y ffyrdd a amlinellir isod.
25. Nid yw'r darpariaethau ôl-gychwyn o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn, oherwydd ein bod yn ystyried dull gweithredu ar wahân.

Ymestyn y dyddiad cau ar gyfer casglu cyfraniadau cyn-gychwyn

26. Mae croniad pensiwn FPJPS bellach ar gau, ac mae aelodau wedi trosglwyddo i JPS22. Mae aelodau y telir ffioedd iddynt a oedd wedi cronni buddion o dan FPJPS yn y gorffennol yn parhau i fod â hawl i'r buddion hynny.
27. Efallai fod gan rai aelodau o FPJPS gyfraniadau sydd heb eu talu sy'n ymwneud â'u haelodaeth o'r cynllun hwnnw. O ran JPS22, efallai fod hyn wedi digwydd lle na chrëwyd cofnodion pensiwn priodol i ddeiliad swydd farnwrol yn dilyn eu cofrestriad (Cofrestriad a Fethwyd), (gweler pwyntiau 15, 16 a 17 uchod am esboniad llawn).
28. Sefydlwyd FPJPS ar 1 Ebrill 2017 ac mae'n ymwneud â thri chyfnod gwasanaeth gwahanol:
 - i. Cyn-gychwyn cychwynnol (gwasanaeth cyn 7 Ebrill 2000),
 - ii. Cyn-gychwyn (gwasanaeth o 7 Ebrill 2000 i 31 Mawrth 2017) ac
 - iii. Ôl-gychwyn (gwasanaeth o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2022).
29. Felly, mae FPJPS yn gweithredu'n ôl-weithredol (mewn perthynas â gwasanaeth cyn 31 Mawrth 2017) ac yn rhagolygol (ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2022).
30. Mae rheoliadau cyfredol y FPJPS yn rhoi'r pwerau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder adennill cyfraniadau ôl-ddyddio gan ddeiliaid swyddi barnwrol sydd wedi

gwasanaethu yn y cyfnodau cyn-gychwyn cychwynnol a chyn-gychwyn ôl-weithredol. Gellir adennill y cyfraniadau hyn drwy ddiidyniadau o ffioedd, didyniadau o gyfandaliad ymddeoliad aelod, neu drwy gyfandaliad ymlaen llaw.

31. Serch hynny, daeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cyfandaliad mewn perthynas â chyfraniadau cyn-gychwyn i ben ar 1 Hydref 2017.
32. Gan ein bod bellach wedi nodi y gallai fod arno aelodau gyfraniadau ar gyfer y cyfnod ôl-gychwyn o ganlyniad i broblem y cofrestriad a fethwyd, er mwyn sicrhau ei bod yn agored i aelodau dalu eu cyfraniadau cyn-gychwyn sy'n ddyledus drwy gyfandaliad ymlaen llaw, rydym yn ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud taliad o'r fath i 1 Ebrill 2027 (neu ddyddiad hwyrach os caiff ei ystyried yn rhesymol ym mhob amgylchiad gan y gweinyddwr), a fydd hefyd yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dyddiad cau sydd eisoes ar waith ar gyfer gwneud cyfandaliad mewn perthynas â'r cyfnod cyn-gychwyn cychwynnol.
33. Bydd ymestyn y dyddiad cau hwn yn creu hyblygrwydd i aelodau dalu, ac i'r cynllun gasglu, cyfraniadau sy'n ddyledus yn y dull sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau.

Ymestyn pwerau adfer cyfredol

34. Yn ogystal ag ymestyn y dyddiad cau ar gyfer talu cyfandaliadau, bydd y gwelliannau hyn hefyd yn rhoi pŵer i reoliadau'r FPJPS sy'n caniatáu i gyfraniadau sy'n ddyledus gael eu didynnu o randaliadau pensiwn. Bydd y gwelliant hwn yn berthnasol i'r cyfnodau cyn-gychwyn a chyn-gychwyn cychwynnol.
35. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw gyfraniadau sydd heb eu talu i gael eu talu'n raddol drwy daliadau pensiwn y dyfodol, yn hytrach na gofyn am un cyfandaliad unigol. Ar hyn o bryd, nid yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu adennill cyfraniadau ôl-ddyddio drwy ddiidyniadau o randaliadau pensiwn y dyfodol.
36. Bydd ychwanegu'r gallu i ddidynnu cyfraniadau o randaliadau pensiwn pellach yn galluogi aelodau i ddewis y dull ad-dalu sydd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau unigol.

Cyfnod ôl-gychwyn

37. Er bod y problemau hyn gyda chyfraniadau ôl-ddyddio hefyd yn effeithio, i raddau cyfyngedig, ar y cyfnod ôl-gychwyn yn FPJPS, mae'r pwerau i gasglu cyfraniadau sy'n ymwneud â'r cyfnod hwnnw yn brin ac, yn wahanol i'r rhai a ddisgrifir uchod, ni ellir eu diwygio gan is-ddeddfwriaeth.

38. Felly, nid yw'r gwelliannau'n cwmpasu'r cyfnod hwn, a bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dibynnu ar bwerau adfer cyfraith gyffredin lle bo'n bosib.

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn?
2. Oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r cynigion hyn?

Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Asesiad o'r effaith

Nid ydym wedi cynnal asesiad o effaith economaidd gan na ddylai ein cynigion gael unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'n cynigion yn bodoli fel atebolrwydd cyllid cyhoeddus ac maent dan ystyriaeth o ran goblygiadau gwariant adrannol.

Cydraddoldeb

O dan [Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i Weinidogion a llunwyr polisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried effeithiau cynigion polisïau ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r canlynol:

- a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erlid ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani;
- b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- c) meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae angen ystyried rhoi "sylw dyledus" yn erbyn y naw nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf:

- | | | |
|----------------------|----------------------|-------------------------|
| 1. oedran; | 5. hil; | 9. priodas neu |
| 2. anabledd; | 6. crefydd neu gred; | bartneriaeth sifil |
| 3. ailbennu rhywedd; | 7. rhyw; | (<i>dim ond mewn</i> |
| 4. beichiogrwydd a | 8. cyfeiriadedd | <i>perthynas â nod</i> |
| mamolaeth; | rhywiol; | <i>gyntaf y PSED</i>). |

Gwahaniaethu: Rydym wedi penderfynu nad yw'r rheoliadau diwygio drafft hyn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 gan na fyddant yn trin unrhyw aelod o'r farnwriaeth yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

At hynny, nid ydym yn ystyried y bydd y rheoliadau drafft yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 gan nad oes unrhyw anfantais benodol i aelodau'r farnwriaeth â nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol:

Yn dilyn yr ymgynghoriad, nid ydym yn disgwyl y bydd angen addasiadau rhesymol ar yr aelodau mewn perthynas â'r cynigion hyn, ond byddwn yn ystyried unrhyw geisiadau o'r fath fesul achos.

Aflonyddu ac erledigaeth: Nid ydym yn ystyried bod risg o aflonyddu neu erledigaeth wrth weithredu ein rheoliadau drafft.

Hyrwyddo cyfle cyfartal: Nid ydym yn ystyried bod y cynigion hyn yn berthnasol i'r rhwymedigaeth hon,

Meithrin cysylltiadau da: Nid ydym yn ystyried bod y cynigion hyn yn berthnasol i'r rhwymedigaeth hon.

Rydym wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb y gwelliannau hyn ac wedi dod i'r casgliad na fydd ganddynt unrhyw effaith ar gydraddoldeb. Yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw, rydym yn ystyried bod y gwelliannau arfaethedig yn gyson â'r gofynion a nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn adolygu'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth baratoi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn.

Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad hwn wedi'i chyhoeddi. Rydym o'r farn nad yw'n debygol y bydd goblygiadau ieithyddol o'r gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru.

Dyletswydd Egwyddorion Amgylcheddol

O 1 Tachwedd 2023 ymlaen, mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion y Goron i roi 'sylw dyledus' i'r datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol.¹

¹ Datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol – GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'r 5 egwyddor yn y datganiad polisi hwn, fel y nodir yn adran 17(5) o Ddeddf yr Amgylchedd, yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel meincnodau llwyddiannus ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd. Wrth lunio polisi, a lle bo'n berthnasol, bydd angen i weinidogion ystyried y canlynol:

yr egwyddor integreiddio
yr egwyddor ataliol
yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell
yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu
yr egwyddor ragofalus

Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i'r 5 egwyddor hyn drwy offerynnau a phrosesau rhyngwladol.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau amgylcheddol ar y gwelliannau arfaethedig.

Cwestiwn

Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir ystod a graddfa'r effeithiau o dan bob un o'r cynigion hyn a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth o effeithiau pellach yn ôl yr angen.

Holiadur

Gweler isod restr lawn o gwestiynau sydd wedi'u nodi ar draws pob adran o'r ymgynghoriad.

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn?
2. Oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r cynigion hyn?
3. Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir ystod a graddfa'r effeithiau o dan bob un o'r cynigion hyn a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth o effeithiau pellach yn ôl yr angen.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi eich hun

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n gynrychiolydd grŵp, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 25^{ain} Tachwedd 2025 drwy wefan Citizen Space neu gallwch anfon e-bost atom yn y cyfeiriad isod:

E-bost: judicialpensionsconsultation@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen wrth:
judicialpensionsconsultation@justice.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Rydym yn gobeithio cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ystod Gaeaf 2025. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (y rhain yn bennaf yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio pam rydych yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd parti.

Atodiad A

Cefndir

Y Cynllun Pensiwn Barnwrol i Farnwyr y Telir Ffi Iddynt (2017) (FPJPS)

Dechreuodd FPJPS ar 1 Ebrill 2017 yn dilyn y penderfyniad yn *O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder* [2013] UKSC 6 (y cyfeirir ato fel *O'Brien 1*) bod barnwyr y telir ffi iddynt wedi cael eu trin yn llai ffafriol na barnwyr cyflogedig llawn amser perthnasol oherwydd nad oedd ganddynt hawl i bensiwn. I ddechrau, dim ond ar gyfer gwasanaeth barnwrol cymwys gan farnwyr y telir ffi iddynt ar neu ar ôl 7 Ebrill 2000 yr oedd FPJPS yn darparu buddion pensiwn. Roedd y darpariaethau'n adlewyrchu i raddau helaeth y trefniadau ar gyfer barnwyr cyflogedig o dan Ddeddf Pensiynau ac Ymddeoliad Barnwrol 1993 (JUPRA).

Ym mis Tachwedd 2018, traddodwyd dyfarniad gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos *O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder* (Achos C-432/17) (y cyfeirir ato fel *O'Brien 2*), a ddaeth i'r casgliad bod yn rhaid ystyried gwaith rhan amser a wnaed cyn 7 Ebrill 2000 wrth gyfrifo hawl pensiwn barnwyr y telir ffi iddynt.

O ganlyniad i *O'Brien 2* daeth Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Barnwyr y Telir Ffi Iddynt) (Diwygio) 2023 (Diwygiadau FPJPS) i rym ar 1 Ebrill 2023, i ddarparu buddion pensiwn ar gyfer gwasanaeth cymwys gan farnwyr y telir ffi iddynt cyn 7 Ebrill 2000. Cynhwyswyd darpariaethau newydd yn unol â hynny i ganiatáu i ddeiliaid swyddi barnwrol cymwys y telir ffi iddynt, gyda gwasanaeth yn dechrau cyn 31 Mawrth 1995, gael buddion pensiwn wedi'u cyfrifo ar sail sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Pensiynau Barnwrol 1981 (JPA81), sef y drefn ar gyfer rhai barnwyr cyflogedig sydd wedi darparu gwasanaeth cyn 31 Mawrth 1995.

Caeodd FPJPS i bob croniad pellach ar 31 Mawrth 2022 pan ddechreuodd cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig (a amlinellir isod).

Cynllun Pensiwn Barnwrol 2022 (JPS22)

Yn dilyn cyflwyno Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (PSPA 13) ac ymgynghoriad gyda'r farnwriaeth, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd yr egwyddorion ar gyfer diwygio trefniadau cynlluniau pensiwn barnwrol ym mis Chwefror 2013. Arweiniodd hyn at gyflwyno cynllun pensiwn barnwrol newydd ar gyfer barnwyr y

telir ffi iddynt a barnwyr cyflogedig o'r enw Cynllun Pensiwn Barnwrol 2015 (JPS15). Dechreuodd hyn ar 1 Ebrill 2015.

Yn 2018, cyhoeddodd yr Uwch Gorff Adolygu Cyflogau (SSRB) ei Adolygiad Mawr o'r Strwythur Cyflogau Barnwrol a amlygodd broblemau recriwtio a chadw cynyddol ar bob lefel o'r farnwriaeth. Daeth i'r casgliad bod y problemau wedi codi'n bennaf yn sgil cyflwyno JPS15 a'r newidiadau dilynol i drothwyon trethi pensiwn.

Mewn ymateb i'r problemau recriwtio a chadw a nodwyd, ymrwymodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflwyno cynllun pensiwn gwell ar gyfer y farnwriaeth gyfan. Mae rheoliadau JPS22 yn darparu cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig sy'n cadw llawer o nodweddion yr egwyddorion diwygio yng nghynllun 2015 ond sy'n ailgyflwyno'r statws treth heb gofrestru, a chyfradd cronni buddion gwell. Mae hyn yn golygu nad yw cronladau buddion o dan JPS22 (fel yn JUPRA a FPJPS) yn cyfrif tuag at lwfansau blynyddol neu lwfansau oes.

Daeth JPS22 i rym ar 1 Ebrill 2022, y diwrnod ar ôl i bob cynllun pensiwn barnwrol arall (JPA81, JUPRA, FPJPS, a JPS15) gau i gronladau pellach. Erbyn hyn, JPS22 yw'r unig gynllun pensiynau barnwrol lle gall barnwyr gronni rhagor o fuddion.

Mae copïau o'r papur ymgynghori hefyd yn cael eu hanfon at y canlynol er gwybodaeth:

Deyrnas Unedig

- Llywydd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig
- Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Cymru a Lloegr

- Cymdeithas y Barnwyr y Telir Ffi Iddynt
- Cymdeithas Barnwyr Ardal Ei Fawrhydi
- Cymdeithas Barnwyr yr Uchel Lys
- Cymdeithas Meistri'r Uchel Lys
- Cymdeithas Aelodau'r Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches
- Cymdeithas yr Aelodau Meddygol Rhanbarthol
- Cymdeithas y Barnwyr Tribiwnlys Cyflogedig ar gyfer Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol
- Cymdeithas y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig
- Llywydd y Siambr Pensiynau Rhyfel a Siambr Iawndal y Lluoedd Arfog
- Y Prif Grwner
- Cyngor Barnwyr y Tribiwnlys Apeliadau
- Cyngor y Barnwyr Cyflogaeth
- Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Fawrhydi
- Cyngor Barnwyr Ardal Ei Fawrhydi (Llysoedd Ynadon)
- Cyngor y Barnwyr Mewnfudo
- Cyngor Cymdeithas Aelodau'r Tribiwnlys

- Cyngor Barnwyr yr Uwch Dribiwnlys
- Pwyllgor Aelodau Lleyg y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth
- Fforwm Cymdeithasau Aelodaeth y Tribiwnlys
- Pwyllgor Pensiynau Barnwrol (Lloegr)
- Cymdeithas Barnwyr Ardal Llundain
- Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr
- Cymdeithas Aelodau'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl
- Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru
- Cyngor Barnwyr Cyflogedig y Tribiwnlysoedd
- Cyngor y Bar (Cymru a Lloegr)
- Cymdeithas y Gyfraith (Cymru a Lloegr)
- Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol
- Cymdeithas Barnwyr Benywaidd y Deyrnas Unedig

Gogledd Iwerddon

- Gweinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon
- Cyngor y Barnwyr Cyflogaeth
- Cyngor y Barnwyr (Gogledd Iwerddon)
- Pwyllgor Pensiynau Barnwrol (Gogledd Iwerddon)
- Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon
- Comisiwn Penodiadau Barnwrol Gogledd Iwerddon
- Swyddfa Llywydd Tribiwnlys Apeliadau Gogledd Iwerddon
- Swyddfa Llywydd Tribiwnlysoedd Cyflogaeth Diwydiannol a Theg Gogledd Iwerddon
- Cyngor Bar Gogledd Iwerddon
- Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon
- Grŵp Llywydd y Tribiwnlys
- Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon

Yr Alban

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Llywodraeth yr Alban
- Cyngor y Barnwyr (Yr Alban)
- Cyngor Barnwrol yr Alban
- Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn
- Cymdeithas y Siryfion Rhan-amser
- Llywydd y Tribiwnlys Tiroedd (Yr Alban)
- Cymdeithas y Siryfion
- Cymdeithas y Prif Siryfion
- Cymdeithas y Siryfion Ynadol

Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr nac yn unigryw ac fe groesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd â barn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn.

Atodiad B

Drafft – Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2026

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd i'w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau fformat amgen o'r adroddiad hwn ar gael ar gais gan judicialpensionsconsultation@justice.gov.uk.